



AQA

City & Guilds

CCEA

OCR

Pearson

CBAC

Gwybodaeth i ganolfannau

AMCANGYFRIF Y MARC COLL PAN FYDD YMGEISYDD YN ABSENNOL O ARHOLIAD

Mae'r ddogfen hon yn esbonio un dull o amcangyfrif y marc coll pan fydd ymgeisydd yn absennol (am reswm derbyniol) o uned neu gydran naill ai mewn manyleb fodiwlaidd neu linol. Mae'r un egwyddorion yn berthnasol pan fo marc ar goll oherwydd bod y sgrïpt wedi'i cholli. O hyn ymlaen, mae unrhyw gyfeiriad at 'gydran(nau)' hefyd yn berthnasol i uned(au) mewn manyleb fodiwlaidd.

Mae nifer o ddulliau eraill ar gael i gyrff dyfarnu a gallant gael eu defnyddio ganddynt os oes angen. Mae gwahanol weithdrefnau'n arwain at amcangyfrifon tebyg iawn. Mae'r amodau ar gyfer dyfarnu marc wedi'i amcangyfrif yn achos absenoldeb ymgeisydd wedi'u nodi ym Mhennod 4 cyhoeddiad y CGC *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig*, sydd ar gael ar wefan y CGC.

O dan y weithdrefn a elwir yn ddull sgôr-z, mae'r gwahaniaeth rhwng amcangyfrif yr ymgeisydd a pherfformiad ymgeiswyr yn gyffredinol ar y gydran dan sylw yr un fath â'r gwahaniaeth cyfartalog rhwng perfformiad yr ymgeisydd a pherfformiad ymgeiswyr yn gyffredinol ar y cydrannau eraill.

Pe bai'r ymgeisydd yn perfformio ychydig yn well ar gyfartaledd nag ymgeiswyr yn gyffredinol ar y cydrannau eraill, yna bydd yr amcangyfrif ar gyfer y marc coll ychydig yn uwch na'r perfformiad yn gyffredinol ar y gydran honno.

Mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad yr ymgeisydd dan sylw a pherfformiad ymgeiswyr yn gyffredinol yn cael ei fesur o ran gwyradau safonol. Er enghraifft, gallai ymgeisydd y mae ei berfformiad ar gydran ychydig yn uwch na pherfformiad ymgeiswyr ar y gydran honno yn gyffredinol fod hanner y gwyrad safonol uwchben y marc cymedrig ar gyfer y gydran honno. Ond ar gydran arall, lle mae ei berfformiad ychydig yn is na pherfformiad ymgeiswyr yn gyffredinol, gallai ef/hi fod hanner gwyrad safonol islaw'r marc cymedrig. Yr enw ar nifer y gwyradau safonol uwchben neu islaw'r cymedr yw sgôr-z.

Ar gyfer cymwysterau TAG llinol yn Lloegr a chymwysterau TGAU llinol a modiwlaidd ar draws y DU, os defnyddir dull sgôr-z, mae'n arfer safonol ar gyfer cyfrifo i ddefnyddio'r marciau sydd ar gael o'r holl gydrannau yn y fanyleb. O bryd i'w gilydd bydd eithriadau i'r arfer hwn am resymau technegol.

Mewn TAG modiwlaidd, mae'r safon ar gyfer unedau UG ac A2 yn wahanol. Felly, dim ond marciau UG sydd fel arfer yn cael eu defnyddio yn y cyfrifiadau sgôr-z ar gyfer unedau UG. Yn yr un modd dim ond marciau A2 sydd fel arfer yn cael eu defnyddio yn y cyfrifiadau sgôr-z ar gyfer unedau A2. Mae'r cyfyngiad hwn ar ddefnyddio unedau UG ac A2 yn cael eu hepgor ar gyfer cymwysterau Safon Uwch dwy uned. I'r rhain, amcangyfrifir marc coll ar gyfer yr uned UG gan ddefnyddio'r canlyniad ar gyfer uned A2; amcangyfrifir marc coll ar gyfer uned A2 gan ddefnyddio'r canlyniad ar gyfer yr uned UG.

Gellir defnyddio dull tebyg mewn sefyllfaoedd eraill lle mae angen amcangyfrif marc.

Dylid cydnabod efallai na fydd y dull sgôr-z yn addas ar gyfer rhai opsiynau pan fydd nifer fach o ymgeiswyr wedi cofrestru. Mewn achosion o'r fath, mae cyrff dyfarnu yn cadw'r hawl i ddefnyddio dulliau eraill os oes angen.

Yn yr enghreifftiau isod mae'r cymedrau a'r gwyradau safonol yn union rifau cyfan. Wrth gwrs, byddai hyn yn annhebygol o ddigwydd yn ymarferol ond mae'n gwneud yr egwyddorion yn haws i'w deall. Mae'r enghreifftiau'n cyfeirio at gymwysterau llinol a marciau crai, ond byddai'r un cyfrifiadau yn berthnasol, o ran marciau unfurf, ar gyfer cymwysterau modiwlaidd.

Enghraifft 1

Mewn manyleb llinol dwy gydran, y marc crai cymedrig ar gyfer pob ymgeisydd ar gydran 1 yw 53 a'r gwyrriad safonol yw 5, tra bod y cymedr ar gydran 2 yn 34 a'r gwyrriad safonol yn 3.

Mae ymgeisydd yn sgorio 43 ar gydran 1 ond mae'n absennol am gydran 2.

	<i>Cymedr</i>	<i>Gwyrriad Safonol</i>	<i>Marc yr Ymgeisydd</i>
<i>Cydran 1</i>	53	5	43
<i>Cydran 2</i>	34	3	<i>Absennol</i>

Marc yr ymgeisydd ar gydran 1 yw 10 marc, neu 2 wyriad safonol, islaw'r cymedr. Felly, mae'r amcangyfrif ar gyfer cydran 2 hefyd yn 2 wyriad safonol islaw'r cymedr. Dyma

$$34 - (2 \times 3) = 28$$

Enghraifft 2

Mewn manyleb llinol tair cydran, y marciau crai cymedig ar gyfer pob ymgeisydd ar gydrannau 1, 2 a 3 yw 50, 80 a 38 yn y drefn honno, gyda gwyradau safonol o 8, 12 a 3. Mae cydran 1 yn cyfrif am 30% o'r asesiad, 50% ar gyfer cydran 2 a 20% ar gyfer cydran 3.

Mae ymgeisydd yn sgorio 58 ar gyfer cydran 1 a 104 ar gyfer cydran 2 ond mae'n absennol ar gyfer cydran 3.

	<i>Pwysoli</i>	<i>Cymedr</i>	<i>Gwyrriad Safonol</i>	<i>Marc yr Ymgeisydd</i>
<i>Cydran 1</i>	30%	50	8	58
<i>Cydran 2</i>	50%	80	12	104
<i>Cydran 3</i>	20%	38	3	<i>absennol</i>

Marc yr ymgeisydd ar gydran 1 yw 8 marc neu 1 gwyrriad safonol uwchben y cymedr, a marc yr ymgeisydd ar gydran 2 yw 24 marc neu 2 wyriad safonol uwchben y cymedr. Y cyfartaledd (gan ystyried y pwysladau) yw

$$\frac{(30 \times 1) + (50 \times 2)}{(30 + 50)}$$

$$= 1.625$$

Felly, yr amcangyfrif ar gyfer cydran 3 yw

$$\text{marc cymedrig} + (1.625 \times \text{gwyrriad safonol})$$

$$= 38 + (1.625 \times 3)$$

$$= 42.875, \text{ sy'n cael ei dalgrynnu i } 43.$$